28 Ionawr 2020 - Rhifyn 173

Tuag at Ragoriaeth

Towards Excellence

# Bwletin GwE

Rhannwch ein Bwletin â staff eich ysgol ac anogwch eich cyd-weithwyr i ymuno â'n rhestr bostio.

## Rhaglen Datblygu Cwricwlwm i Gymru

Heddiw [28/01/2020], rydym yn croesawu cyhoeddi canllawiau diwygiedig Cwricwlwm i Gymru. Yn dilyn ein Nodyn Briffio a rannwyd â chi yr wythnos diwethaf, rydym yn awyddus i'ch atgoffa a'ch sicrhau o'r gefnogaeth barhaus sydd ar gael gan bob Consortiwm rhanbarthol. Fel y gwyddoch, mae'r ddarpariaeth hon ar gael heb unrhyw gost. Mae'r cynnwys yn adlewyrchu ymagwedd gytûn, cyson ac effeithiol wrth gefnogi diwygiad cwricwlwm ar draws Cymru. Gwiriwch ein gwefannau a'n gohebiaeth ar e-bost am ddiweddariadau rheolaidd. Edrychwn ymlaen at weithio'n agos iawn gyda chi yn ystod y cyfnod cyffrous hwn o ran y system addysg yng Nghymru. Diolch yn fawr iawn am eich ymroddiad a'ch cefnogaeth.

CWRICWLWM I GYMRU - HWB

NODYN BRIFFIO

Regional School Improvement Consortia
Consortia Gwella Ysgolion Rhanbarthol

## Cymedroli CA2/3 2020

Yn unol â gofynion statudol, mae gofyn i ysgolion drefnu cyfarfodydd cymedroli ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth.
**Cliciwch yma** i weld yr amserlen.

## Cynnig GwE ar G6

Fel y gwyddoch, mae Cynnig GwE, sy'n cynnwys holl fanylion yr hyfforddiant datblygiad proffesiynol y mae GwE yn ei gynnig ar gyfer y flwyddyn nesaf, bellach yn fyw ar G6 [https://g6.gwegogledd.cymru].

**Er mwyn cofrestru i fynychu'r hyfforddiant sydd wedi'i restru, bydd angen i holl staff yr ysgol greu cyfrif personol yn G6.**

Mae modd gwneud hynny drwy ddilyn y **ddolen hon** a chlicio ar y botwm 'Cofrestrwch Nawr'. Gweler y cyfarwyddiadau **yma**.

***Gall y dyddiadau/lleoliadau newid. Edrychwch ar G6 am yr wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi fynychu unrhyw ddigwyddiad.***

| IONAWR 2020 | DYDDIAD | LLEOLIAD | CYFRWNG |
|---|---|---|---|
| Cyfarfod Rhanbarthol i Benaethiaid Mathemateg | 30/01/2020 | Glasdir, Llanrwst | Dwyieithog |
| Hyfforddiant Datguddio [*Unearthing*] i Ysgolion | 31/01/2020 | Porth Eirias, Bae Colwyn | Saesneg |
| **CHWEFROR - DIGWYDDIADAU TAN HANNER TYMOR** | | | |
| 1U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 1 Uwchradd [Saesneg - Llanelwy] | 04/02/2020 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - Coed y Brenin - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 04/02/2020 | Coed y Brenin, Dolgellau | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** - Coed y Brenin - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 04/02/2020 | Coed y Brenin, Dolgellau | Cymraeg |
| Sesiwn galw i mewn [Bryn Eirias, Bae Colwyn]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd | 04/02/2020 | GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | Dwyieithog |
| 1U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 1 Uwchradd [Saesneg – Yr Wyddgrug] | 05/02/2020 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| GDD - Digwyddiad Effaith ac Arfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth | 05/02/2020 | Venue Cymru, Llandudno | Dwyieithog |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - Clwb Golff Nefyn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 05/02/2020 | Clwb Golff Nefyn | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** – Clwb Golff Nefyn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 05/02/2020 | Clwb Golff Nefyn | Cymraeg |
| 1U: ANG Hyfforddiant Ymsefydlu - Diwrnod 1 Uwchradd [Cymraeg - Plas Menai] | 06/02/2020 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| Cymraeg a Saesneg (Uwchradd) - Meithrin potensial pob dysgwr | 06/02/2020 | Canolfan Fusnes Conwy | Dwyieithog |

| CHWEFROR - DIGWYDDIADAU TAN HANNER TYMOR [PARHAD...] | | | |
|---|---|---|---|
| Sesiwn galw i mewn [Linden House, Yr Wyddgrug]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd | 06/02/2020 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Dwyieithog |
| Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma [Wrecsam] | 07/02/2020 | Canolfan Catrin Finch, Wrecsam | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** – Linden House - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 10/02/2020 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - OpTIC- Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 10/02/2020 | OpTIC, Llanelwy | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** – Linden House - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 10/02/2020 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** - OpTIC- Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 10/02/2020 | OpTIC, Llanelwy | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** – Linden House - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 11/02/2020 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - OpTIC- Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 11/02/2020 | OpTIC, Llanelwy | Saesneg |
| Datblygu llafaredd ar draws y cwricwlwm - DIWRNOD 2 | 11/02/2020 | Canolfan Fusnes Conwy | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** – Linden House - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 11/02/2020 | GwE, Linden House, Yr Wyddgrug | Cymraeg |
| Sesiwn galw i mewn [Caernarfon]: Arweinwyr Llythrennedd a Rhifedd | 11/02/2020 | GwE, Penrallt, Caernarfon | Dwyieithog |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - Alyn Waters - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 12/02/2020 | Alyn Waters, Gwersyllt, Wrecsam | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - Oriel Môn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 12/02/2020 | Oriel Môn, Llangefni | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** - Alyn Waters - Saesneg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 12/02/2020 | Alyn Waters, Gwersyllt, Wrecsam | Saesneg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** - Oriel Môn - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 12/02/2020 | Oriel Môn, Llangefni | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer CD** - Plas Menai - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 13/02/2020 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |
| Cyfnod Sylfaen (**ar gyfer Athrawon** - Plas Menai - Cymraeg) Datblygu sgiliau creadigol, beirniadol a datrys problemau drwy ddefnyddio blociau ac adeiladu | 13/02/2020 | Plas Menai, Caernarfon | Cymraeg |

# Rhaglenni Proffesiynol

## Diwrnod Datblygu Cenedlaethol CALU *NEWYDD*



**DYDD GWENER, 6 MAWRTH 2020** **VENUE CYMRU, LLANDUDNO**

Cynhelir Diwrnod Datblygu Cenedlaethol CALU ar 6 Mawrth i gymorthyddion dysgu sydd â statws CALU. Dyma gyfle i weld esiamplau o arfer dda mewn ysgolion ar draws rhanbarth GwE.



Bydd dau siaradwr gwadd: Mike Gershon, arbenigwr mewn addysgu, a'r Athro Neil Frude o *The Happiness Consultancy*.

Nid oes ffi ar gyfer mynychu'r gynhadledd ac ad-delir costau llanw CALU.

**COFRESTRWCH TRWY G6**

# Digwyddiadau GwE

***DYDDIAD I'R DYDDIADUR***

## Cynhadledd Arweinyddiaeth Chweched Dosbarth




**DYDD GWENER, 28 CHWEFROR 2020** **GLASDIR, LLANRWST**

Bydd GwE yn cynnal y 3ydd Gynhadledd Flynyddol i Arweinwyr Chweched Dosbarth a Phenaethiaid Cynorthwyol Chweched Dosbarth.

**Manylion llawn am y rhaglen a sut i gofrestru i ddilyn yn fuan.**

# Cwrs Sabothol Cymraeg
## [Lefel Ganolradd]

**27/04/2020—26/06/2020—CANOLFAN IAITH, YSGOL GLAN CLWYD**

Cwrs i athrawon ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg, neu athrawon sydd wedi cwblhau Cwrs Sylfaen Sabothol, sy'n gallu siarad Cymraeg yn **eithaf** hyderus ond sydd eisiau datblygu eu sgiliau.

**Am ragor o wybodaeth am y cwrs, cysylltwch â Chanolfan Bedwyr:**

n.h.williams@bangor.ac.uk

01248 383293

**DYDDIAD CAU CEISIADAU:**
**DYDD GWENER, 14 CHWEFROR 2020**

**I WNEUD CAIS, CLICIWCH YMA**

## Cracio'r Cod a Microbit

ADDAS AR GYFER CA2 A CA3

Mae'r cwrs yn gyflwyniad i godio a rhaglennu drwy ddefnyddio micro:bit a meddalwedd codio hawdd a phwerus MakeCode gan Microsoft sy'n seiliedig ar godio bloc. Bydd cyfle yn ystod y dydd i gwblhau cyfres o dasgau sy'n anelu at gael athrawon i ddod yn gyfarwydd â nodweddion amrywiol a gwella eu hyder. Gellir addasu'r tasgau hyn a'u defnyddio yn ôl yn yr ysgol.

***SET DOSBARTH O MICROBITS AM DDIM AM FYNYCHU***

**COFRESTRWCH DRWY G6.**

## Digwyddiadau Dysgu Digidol Rhanbarthol

**DYDD MAWRTH, 10 MAWRTH 2020**

**VENUE CYMRU, LLANDUDNO**

Mae cewri'r byd dysgu digidol yn ymweld â Gogledd Cymru! Google, Microsoft, Minecraft a llawer iawn mwy! Ymunwch â ni mewn digwyddiad arbennig i ddysgu mwy am y datblygiadau diweddaraf yn y maes dysgu digidol. P'un a ydych yn hyderus wrth ddefnyddio technoleg ddigidol i gyfoethogi'r dysgu neu ar gychwyn eich taith ddigidol, bydd rhywbeth defnyddiol ar gael i bawb!

**CLICIWCH YMA AM RAGOR O WYBODAETH AC I GADW EICH LLE**




## Gwybodaeth Amrywiol ac Arolygon

## *Booksfortopics*

Llyfrau newydd ar gyfer blwyddyn newydd! Mae *Booksfortopics* wedi cael cip ymlaen llaw ar lyfrau gradd ganol newydd [oedran 8-12] a gyhoeddir y tymor hwn, ac wedi dewis saith prif argymhelliad i gadw golwg amdanynt o fis Ionawr i fis Mawrth 2020. **Cliciwch yma** am ragor o wybodaeth [gwefan allanol cyfrwng Saesneg].



## Straeon am lifogydd o bob cwr o'r byd - a'r hyn y maent yn ei ddysgu i ni

Mae Emma Carroll yn sôn am y llifogydd go iawn a ysbrydolodd ei llyfr *The Somerset Tsunami*, a pham y byddwn ni wastad yn rhannu chwedlau a straeon am lifogydd i wneud synnwyr o'r hyn sy'n digwydd.

Ceir rhagor o wybodaeth **yma**.

BookTrust
Getting children reading

## Parodrwydd Cadarnhaol i Ddysgu [PR4L] Rheoli Ymddygiad yn y Dosbarth

Cliciwch yma am ragor o fanylion.

**Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r astudiaeth hon, anfonwch e-bost at Millie Blandford-Elliott** edp5f8@bangor.ac.uk

## Gwahoddiad i Ymuno â Phrosiect Ymchwil 'Standing Together'

### CEFNOGI LLESIANT CYMDEITHASOL AC EMOSIYNOL PLANT MEWN YSGOLION CYNRADD

CLICIWCH YMA I DDARLLEN Y LLYTHYR

CLICIWCH YMA AM RAGOR O FANYLION

SEFYLL GYDA'N GILYDD
Cefnogi lles cymdeithasol ac emosiynol plant mewn ysgolion
STAND TOGETHER
Supporting Children's social and emotional well being in schools

# Cynadleddau a Chyfleoedd gan Eraill

***Gweler isod manylion y cyfleoedd a allai fod yn ddefnyddiol yn eich ysgol. Sylwch nad yw GwE o reidrwydd yn cymeradwyo nac yn sicrhau ansawdd y cyfleoedd isod. Cysylltwch â'r sefydliadau'n uniongyrchol os oes gennych ymholiadau:***

## Swydd: Pennaeth Ysgol Gymraeg Mornant

**DYDDIAD CAU: DYDD LLUN, 3 CHWEFROR 2020 AM 1 O'R GLOCH Y PRYNHAWN**

Mae Corff Llywodraethu Ffederasiwn CWLWM yn awyddus i benodi arweinydd blaengar, deinamig a chreadigol i fod yn bennaeth dros Ysgol Gymraeg Mornant.
Gwahoddir ceisiadau oddi wrth addysgwyr ac arweinyddion profiadol sy'n hollol ymroddedig i godi safonau ac i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg.

Ysgol Gymraeg Mornant
Picton

RHAGOR O FANYLION

## Cynhadledd Bwysig i Benaethiaid Uwchradd yng Nghymru

**31 MAWRTH 2020 / 1 EBRILL 2020 VALE RESORT, PARC HENSOL, HENSOL, CAERDYDD, CF72 8JY**

**Arwain y broses o wireddu'r cwricwlwm newydd i Gymru- yr her i benaethiaid uwchradd**
Gyda chyhoeddi'r Cwricwlwm i Gymru diwygiedig ar 28 Ionawr 2020 rydym yn dechrau ar gyfnod allweddol o ran gwireddu'r cwricwlwm i'n hysgolion, ein hathrawon, ein plant a'n pobl ifanc.
Bydd y gynhadledd hon yn canolbwyntio'n benodol ar eich rôl fel pennaeth ysgol uwchradd yn arwain y gwaith i fis Medi 2022.
Bydd y gynhadledd ddeuddydd hon yn rhoi gwybodaeth am gymorth fydd ar gael yn genedlaethol ac yn lleol.
**Mae hwn yn ddigwyddiad hanfodol i bob pennaeth ysgol uwchradd.**

**Cliciwch yma i archebu eich lle.**

Os oes gennych unrhyw ofynion dietegol ac/neu os oes arnoch angen llety ar gyfer y gynhadledd, anfonwch e-bost at Claire.Habberfield@gov.wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cyfle i gydweithio ag Ysgolion yn Lesotho trwy Dolen Cymru

Hoffai *International Links* gynnig cyfle i'n hysgolion gydweithio ag ysgolion yn Lesotho trwy Dolen Cymru. Rydym yn recriwtio ysgolion fyddai ganddynt ddiddordeb mewn cynnal prosiect fel clwstwr o ysgolion gyda chlwstwr o ysgolion yn Lesotho.

Os oes gennych ddiddordeb bod yn rhan o'r cais hwn, cysylltwch â Ruben Chapela-Orri [r.chapela@bangor.ac.uk] erbyn **31 Ionawr**.

Dolen Cymru
•Wales Lesotho Link•

***Cadwch y dyddiad***

## Digwyddiad Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen

**DYDD IAU, 13 CHWEFROR 2020**

**GWESTY A SPA'R ORIEL, LLANELWY, LL17 0LW**

### Ymarferwyr Creadigol yn Meithrin Dysgwyr Creadigol

A yw creadigedd a chymryd risg yn hwyl ac yn gyffrous neu'n codi ofn a dychryn arnoch chi? Bydd **Nia Richards** o Gynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol Cyngor Celfyddydau Cymru, gyda chefnogaeth athrawon Cyfnod Sylfaen, yn siarad a bydd hefyd yn cynnal gweithdai ar ddatblygu creadigedd.

**Hannah Chivers** 'Hwb Llywodraeth Cymru, parth Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen a datblygiadau yn Cwricwlwm Cymru 2020'.
Yn ogystal bydd copi o'r **'Geiriau Diflanedig'** gan Robert Macfarlane a Jackie Morris ar gael i bob cynrychiolydd.

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

CLICIWCH YMA AM ADNODDAU I GYD-FYND Â'R DIGWYDDIAD

**Cofiwch ddilyn @GwEGogleddCymru ar Twitter**

**GwEGogledd.Cymru**

Am ragor o wybodaeth, ewch i'n **gwefan**

Rydym wedi diweddaru ein polisi preifatrwydd i adlewyrchu newidiadau i'r ddeddf gwarchod data. Gallwch weld y polisi **yma**

**Rydych wedi tanysgrifio i dderbyn bwletin GwE. Fodd bynnag, os nad ydych yn dymuno derbyn y bwletin rhagor gallwch ddatdanysgrifio drwy gysylltu â** bwletin@gwegogledd.cymru **yn nodi'r cyfeiriad e-bost sydd wedi'i gofrestru.**